

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee

Cyllido Ysgolion yng Nghymru | School Funding in Wales

SF 23

Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg

Response from: Welsh Language Commissioner

Diolch ichi am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar gyllido ysgolion yng Nghymru.

Mae'r sector addysg statudol yn rhan greiddiol o strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwireddu eu gweledigaeth uchelgeisiol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Un rhan allweddol o'r strategaeth yw cynyddu'r niferoedd o ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r taflwybr i'r miliwn o siaradwyr yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd y nifer o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn codi o'r ffigwr presennol o 22%, i 30% yn 2031, ac yna i 40% yn 2050. Ail ran allweddol y strategaeth yw diwygio'r ffordd mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn ôl y Llywodraeth, cyflwyno cwricwlwm newydd i Gymru fydd yn ysgogi'r newidiadau hyn i'r ffordd y bydd y Gymraeg yn cael ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae gan strategaeth *Cymraeg 2050* oblygiadau arwyddocaol i awdurdodau lleol, yn enwedig ym maes addysg. Er enghraifft, bydd y strategaeth gyntaf o ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn gofyn i awdurdodau lleol agor ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd, ehangu ysgolion Cymraeg presennol, neu i symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol. Bydd goblygiadau amlwg o ran cyflogi digon o athrawon i ddysgu yn yr ysgolion hyn yn ogystal. Bydd cyfrifoldeb hefyd ar awdurdodau lleol ac ysgolion yn sgil yr ail strategaeth i ddiwygio'r ffordd mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Er enghraifft, mae'n bosib bydd disgwyl i ysgolion ddysgu cyfran uwch o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yn unig y mae goblygiadau i hyn o ran sicrhau bod digon o athrawon â'r sgiliau ieithyddol i gyflwyno cwricwlwm o'r fath, ond bydd hefyd ofnion ychwanegol o ran creu deunyddiau ac adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm diwygiedig. Mae'n amlwg y bydd gallu awdurdodau lleol i gyflawni'r fath newidiadau, a drwy hynny gyfrannu l strategaeth *Cymraeg 2050*, yn cael ei danseilio'n sylweddol oni fydd cyllid digonol ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Rwyf yn ymwybodol bod cyllid addysg awdurdodau lleol yn dod yn bennaf o'r

setliad llywodraeth leol blynyddol a hefyd drwy incwm y dreth gyngor ac incwm ardrethi annomestig. Er nad yw'r gyllideb hon wedi ei neilltuo, bydd maint y gyllideb gychwynnol yn effeithio'n uniongyrchol ar faint o arian y bydd modd i awdurdodau lleol ei ddyrannu i gyllidebau penodol, er enghraifft y gyllideb addysg. Bydd hyn yn ei dro yn dylanwadu ar allu awdurdodau lleol i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, er enghraifft amcanion *Cymraeg 2050*.

Yn ôl erthygl ddiweddar gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad ar 'Cyllido Ysgolion yng Nghymru' mae cyfanswm y cyllid y mae awdurdodau lleol wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng 1.3% mewn termau real rhwng 2017-18 a 2018-19. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod gostyngiad o 7.9% mewn termau real rhwng 2010-11 a 2018-19 yng nghyfanswm yr arian mae awdurdodau lleol yn ei ddyrannu i'w wario ar gyfer ysgolion. Mae'r ffigyrau hyn yn codi cwestiynau pwysig ynglŷn ag i ba raddau y mae'r cyllid presennol yn ddigonol i alluogi awdurdodau lleol i yrru'r newidiadau pellgyrhaeddol sydd eu hangen er mwyn gwireddu gweledigaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru. Nid yn unig mae angen sicrhau'r cyllid sy'n cael ei ddirprwyo i ysgolion unigol, ond hefyd y gyllideb addysg sy'n weddill at ddefnydd awdurdod lleol. Mae'r gyllideb ganolog hon yn hollbwysig ar gyfer hybu a hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, er enghraifft drwy ariannu cludiant am ddim i ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae erthygl ddiweddar gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad yn nodi bod maint y gyllideb ganolog hon (hynny yw, y gyllideb sy'n weddill ar ôl dirprwyo cyllid i ysgolion unigol) wedi lleihau yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Mae'n debyg mai'r pwysau hyn ar gyllidebau addysg awdurdodau lleol sy'n arwain rhai awdurdodau lleol i ystyried diwygio eu polisiau cludiant addysg (er enghraifft), a allai gael effaith andwyol ar addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae tystiolaeth amlwg felly fod diffyg cyllid yn ei gwneud yn anodd i rai awdurdodau lleol gynnal y gefnogaeth bresennol i addysg cyfrwng Cymraeg, heb sôn am gynyddu'r gefnogaeth yn sylweddol yn unol ag amcanion polisi *Cymraeg 2050*.

Er bod sicrhau cyllideb graidd ddigonol ar gyfer awdurdodau lleol yn hollbwysig ar gyfer gyrru amcanion polisi *Cymraeg 2050*, mae hefyd angen edrych ar ffrydiau cyllido eraill ar gyfer y sector addysg statudol. Er enghraifft, rwyf yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r gyllideb addysg ar gyfer darparu grantiau at bwrpas gweithredu polisiau a blaenoriaethau penodol, a bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i fuddsoddi £100 miliwn ychwanegol dros dymor y Cynulliad presennol. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod y cyllid sy'n cael ei ddarparu i gonsortia rhanbarthol yn cyfrannu at gefnogi addysg cyfrwng Gymraeg a dwyieithog. Yn ychwanegol i hyn, cyhoeddodd Lywodraeth Cymru yn ddiweddar fuddsoddiad o £30 miliwn ar gyfer prosiectau cyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg, a

derbyniwyd ceisiadau gan awdurdodau lleol oedd yn dod i gyfanswm o £103 miliwn. Mae'n amlwg felly bod galw ymysg yr awdurdodau lleol am gyllid ychwanegol ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n bwysig hefyd sicrhau fod y Rhaglen Cyfalaf Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn cael ei defnyddio mewn ffordd strategol ar gyfer ehangu a chefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru.

Er bod y ffrydiau cyllid uchod wedi cyfrannu yn sylweddol at gryfhau sefyllfa'r Cymraeg yn y sector addysg, rwyf o'r farn bod angen datblygu strategaeth gyllido fwy cyson, hirdymor a sylweddol ar gyfer cefnogi awdurdodau lleol i gyfrannu at dargedau addysg Cymraeg 2050. Mae'n debyg y bydd angen i strategaeth o'r fath ystyried amryw o ffyrdd gwahanol o gefnogi awdurdodau lleol i'r perwyl hwn, gan gynnwys cyllidebau craidd awdurdodau lleol, a hefyd grantiau cyllido mwy penodol. Yn y cyd-destun hwn dylid ystyried sut gellid cydlynu'r ffrydiau cyllido hyn i hwyluso gweithrediad y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.

Gobeithio bydd y sylwadau hyn o gymorth ichi wrth graffu ar drefniadau cyllido ysgolion yng Nghymru.